



# DARON

Hyd: 5.3km – 3.3m



## Cyfarwyddiadau

Cychwyn o ganol y pentref, ger y pontydd a dringo ychydig ar yr allt ar ffordd Rhoshirwaun (B4413) i gyfeiriad becws Isllyn (SH 173264)

- Wedi mynd heibio'r Hen Felin dal i'r dde i'r llwybr cyhoeddus.
- Dilyn y llwybr i ganlyn afon Daron.
- Ymhen 1km bydd llwybr yn troi i'r chwith (gogloedd-ddwyrain) (SH 182 273) ac yn dringo at y B4413.
- Croesi'r ffordd honno a dilyn y llwybr nes dod at Hirdre Uchaf. (SH 179279)
- Dilyn llwybr i'r chwith ac at groesffordd (ger Cyll y Felin) (SH 172 273)
- Cymryd y ffordd i'r gorllewin yn y groesffordd. (Yn y man, ar y dde gwelir plac i ddynodi Cae'r Eos, cartref Dic Aberdaron)
- Dal i'r chwith yn y gyffordd nesaf a dilyn Ffordd yr Arfordir i Aberdaron. Mae hon yn mynd heibio Capel Deunant ac Ysgol Deunant, sef hen Ysgol Aberdaron.

## Pethau i'w gweld ar y daith:



### 1 Cae'r Eos

Dyma gartef yr ieithmon hynod, Rihard Robert Jones (Dic Aberdaron). Does dim yn sefyll o'r cartref erbyn hyn ond gosodwyd plac i'w goffau yn y clawdd yn agos i'r fan lle safai'r bwthyn. (SH 168280)

Mab i saer oedd Dic Aberdaron (1879 – 1843) ond datblygodd yn gymeriad unigryw ac athrylithgar. Crwydrai'r wlad gyda'i gath a'i lyfrau a dywedir ei fod yn gallu siarad 14 o ieithoedd, a hynny heb gael fawr o addysg ffurfiol. Bu farw ar ei deithiau a chladdwyd ef yn Llanelwly.



### 2 Eglwys Sant Hywyn Aberdaron

Hywyn yw sant eglwys Aberdaron, un o'r seintiau Llydewig a ddaeth gyda Cadfan i Lŷn ac i Enlli. Ger Ffynnon Saint roedd carreg fawr wastad a elwid yn Allor Hywyn. Yma yr arferai'r myneich ymgasglu i gynnal gwasanaethau. Ffrwydrwyd y garreg flynyddoedd lawer yn ôl.

Yn eglwys Aberdaron y cafodd Gruffudd ap Rhys seintwar rhag milwyr Gruffudd ap Cynan, ei dad-yinghyfraith. Llwyddodd wedyn i ddianc rhagddo i Ddyffryn Tywi.

Bu'r bardd R S Thomas yn ficer yma rhwng 1967 a 1978.



### 3 Mynydd Yr Ystum

Bryn bychan a gysylltir ag Odo Gawr lle dywedir iddo gael ei gladdu dan garnedd o gerrig.

Mae Castell Odo ar ei gopa lle ceir olion caer o Oes yr Efydd, ar ôl 1800 C.C. Ar ei odre gogleddol mae Ffynnon Odo a cheir Capel Odo yn yr ardal. Ar y copa hefyd mae maen enfawr a elwir yn Garreg Samson.

Dywedir i hon gael thafllu yma o Uwchmynydd gan Samson a'r tyllau ynddi yw olion ei fysedd. O dan hon mae cawg o aur. Arddangosir creiriau crochenwaith a gloddiwyd yma yn 1958-9 yn Amgueddfa Bangor. Yn ôl un gred difethwyd y gaer gan y Rhufeiniaid yn 78 O.C.



### 4 Traeth Aberdaron

Fel ym mhob traeth tywodlyd prin iawn yw'r enwau a geir yma, dim ond ambell garreg yma ac acw yn dwyn enw arwyddocaol, megis Carreg y Ring.

Bu arni ddolen rhyw dro ar gyfer clymu llongau. Yn Porthmadog Ships cyfeirir at adolygiad o waith J. Glyn Davies lle mae'n trafod dulliau o ddadlwytho calch ar y traethau. Eglura fel y byddai llongau calch a glo yn dod i'r lan ar draeth tywodlyd, megis Aberdaron, ar ben llanw.

Mwy . . .

## 4 Traeth Aberdaron

Mwy . . . Clymid y llong wrth ddolen ar graig ar y traeth fel y gellid ei dadlwytho. Deuai'r troliau i nôl y calch ar drai a byddai'r llong yn barod i adael pan ddeuai'r môr i mewn unwaith eto.

Ceid traferth i gael y llong yn ôl i'r môr pe bai wedi glanio â'i thrwyn i'r tir, felly wrth ddod i mewn byddent yn ei chlymu wrth y ddolen dros yr ochr nid dros y tu ôl. Byddai wedyn yn haws i'w throï yn ôl i'r môr wrth hwylio ymaith.

O dan y fynwent mae Carreg y Ring ac ni welir hi ond ar ddistyll. Draw ar y traeth hefyd gwelir Carreg Oistars – lle da, mae'n siwr, am lymeirch. Mae Carreg y Meudwy yma sydd yr un siâp yn union ag Enlli. Honnir mai awyryfaen (meteorite) ydyw, er nad oes daearegwr wedi profi hynny. Yma hefyd mae Carreg Gyfrwy a fu unwaith yn gorwedd yn y tywod a'i ffurf yn union fel cyfrwy. Nid yr un siâp sydd iddi bellach a honnir yn lleol fod y môr wedi ei throï ar ei phen i lawr yn y tywod! O dan y fynwent hefyd y ceir y Banc Sidan.

Deuai llongau masnach i Aberdaron yn y dyddiau pell hynny a daeth yn borthladd pysgota penwaig o gryn bwys. Dywedir y byddai gwraig o Uwchmynydd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn mynd o gwmpas y ffermydd i gasglu wyau ac yna'n mynd â hwy i Aberdaron a'u hanfon yn slŵp y teulu i Lerpwl i'w gwerthu.

Aeth llong yn ddrylliau yma yn 1752. Sgwner o'r enw John the Baptist ydoedd ac arni lwyth o geirch ar daith o Wexford i Lerpwl.

Gelwir y fan lle mae'r ffordd yn terfynu ger y môr yn Ben yr Odyn, yn arwydd siŵr fod calch yn cael ei fewnforio yma a'i losgi yn yr ody. Dywedir fod Sgweiar Nanhoron yn 1906 wedi rhoi'r tir lle safai'r ody i'r plwyf er mwyn helaethu'r fynwent. Yr hyn sy'n anodd i'w gysoni yw fod gwesty Tŷ Newydd rhwng y fynwent a'r fan a adnabyddir yn lleol fel Pen yr Ody.


Bu Aberdaron hefyd yn lloches i smyglwyr, fel amryw o'r porthladdoedd eraill o gwmpas Llŷn. Mae David Thomas yn dyfynnu o lythyr capten y Cutter, Llong y Cyllid ym mis Mai 1767:

Ar y pumed o'r mis hwn, angorodd slŵp gan tunnell ym Mae Aberdaron gyda'r hwyr, a daeth deg o wŷr i'r lan, a chleddyfau a llawddrylliau ganddynt, a chynnig brandi a the ar werth. Dywedent mai o Ffrainc y daethent, ond ni werthent lai na deg casgen o frandi a chist o de, a gofyn decpant amdanynt. Trannoeth, taniwyd gwn ar fwrdd y llong gyda'r nos i alw'r dynion yn eu holau, ac yna hwylio am lannau Aberteifi a gwerthu eu cargo yno, yn ôl fel y clywsom.

Un o'r prif smyglwyr halen oedd Huw Andro, brodor o Lanfaelrhys. Dywedir iddo unwaith fynd i lwerddon, lle'r oedd halen yn ddi-doll, a phan aeth ei gyd-deithiwr i rhyw dŷ i werthu halen, roedd dyn yno a gredai ei fod wedi ei witsio. Dywedwyd wrth hwnnw y gallai Huw Andro ei wella. Galwyd ar Huw i'r tŷ ac adroddodd y pennill hwn uwchben y claf, fel geiriau hud:

Mi ddois i yma o wlad bell,  
Os nad ei di'n waeth, 'nai m'onot yn well;  
Cawn i olwg unwaith ar Fynydd y Rhiw,  
Waeth gen i di'n farw mwy nag yn fyw.

Pan ddychwelodd i lwerddon i gael rhagor o halen cafodd groeso twymgalon gan fod y Gwyddel wedi gwella'n llwyr. Roedd cynllun arbennig i gychod Aberdaron; cychod dau flaen oeddynt, fel yr un a gaiff sylw J.T.W. yn ei gerdd 'Cwch Dau Flaen fy Nhaf':



## 5 Trwyn Y Penrhyn

Wrth nesu at gwr dwyreiniol Traeth Aberdaron deuan at Y Wig, Wig Bach, Ogot Ddeuddrws (un arall), Llech Cranc a Thrwyn Llech.

Yn y môr i gyfeiriad Porth Meudwy o Lech Cranc mae Carreg Allan. Yna gwelir Trwyn y Penrhyn ym mhen dwyreiniol y bae, y fan y dymunai T. Rowland Hughes eistedd oddi tano i greu ei gampwaith, yn ôl ei gerdd:

Dan drwyn y Penrhyn a'r wylan a'i chri  
Yn troelli uwchben mi eisteddwn i.  
Nosweithiau hirion nes llithio bob lliw  
Ynysoedd Gwylan a'r tonnau a'r Rhiw.

Ond wrth gwrs, 'wêl neb mo Enlli' o'r fan hyn.



## 6 Ynysoedd Gwylanod

Sonnir hefyd yn y gerdd 'Pe bawn i yn artist' am Ynysoedd Gwylan. Mae dwy ohonynt, y Fwyaf a'r Lleiaf, yn gorwedd yn urddasol yn y bae. Dynodwyd y rhain yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail eu harbenigrwydd fel manau nythu i'r palod yn ogystal â'r bilidowcar, y llurs a'r gwylog.

Ar yr ynys leiaf ceir Plas Deryn a Llyw yr Ynys Fach, sef y trwyn agosaf i Enlli. Mae cilfachau Ogot Hwyaid yn wynebu Aberdaron a Heuwal yr Ynys yn fan cysgodol. Ar yr Ynys Fwyaf ceir Trwyn yr Ynys Fawr. Yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf arferid mynd â defaid Cadlan i'r ynysoedd ar ddechrau'r haf a'u gadael yno i bori.

7 Ffynnon Saint Ffynnon fach, siâp D, tua 3 troedfedd (tua 0.9m) ar draws, wedi'i hamgylchynu gan wal gerrig a'i gorchuddio â chaead haearn modern. Disgrifir y safle yn nhrydedd gyfrol y Rhestr o Henebion yn Sir Gaernarfon (CBHC: 1964) fel un sydd mewn cyflwr gweddol ac yn dal i gael ei ddefnyddio, ond mae'n debyg ei fod wedi tyfu'n wyllt ers hynny.